## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth hybu’r gwaith o recriwtio aelodau’r tîm. Mae'n golygu cymryd agwedd deg a gwrthrychol at recriwtio a dethol i sicrhau mai unigolion sydd â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth ofynnol ac sy'n debygol o berfformio'n effeithiol sy’n cael eu penodi. Mae'r safon hefyd yn cynnwys cymryd camau i gefnogi ymdrechion i gadw aelodau newydd o'r tîm.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adolygu'r llwyth gwaith ar gyfer eich maes cyfrifoldeb
2. adolygu bylchau a diffygion o ran staffio, profiad a chymysgedd sgiliau er mwyn canfod gofynion recriwtio
3. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill yn y broses recriwtio a dethol
4. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i adolygu disgrifiadau swydd, manylebau person a hysbysebion swyddi
5. cymryd rhan yn y broses recriwtio a dethol, a’i monitro
6. sicrhau bod y gweithdrefnau dethol a'r gwiriadau cyn cyflogi gofynnol wedi cael eu cyflawni
7. cael geirdaon ar gyfer aelodau o’r tîm sydd newydd gael eu recriwtio
8. rhoi gwybodaeth i eraill am y penderfyniadau dethol
9. cefnogi â phrosesau cynefino aelodau newydd o'r tîm a darparu adnoddau a chefnogaeth barhaus i sicrhau eu bod yn setlo yn y gweithle
10. rhoi cyfleoedd i aelodau newydd o'r tîm drafod ac ystyried cynnydd yn ystod eu cyfnod prawf
11. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i roi adborth ynghylch y broses recriwtio a dethol, a nodi arferion da a mynd i’r afael â newidiadau ar gyfer recriwtio yn y dyfodol
12. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer recriwtio aelodau’r tîm
13. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth hybu’r gwaith o recriwtio aelodau’r tîm

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. diwylliant ac arferion gweithio'r sector
2. y cynlluniau a'r trefniadau presennol yn y sector i fynd i'r afael â materion recriwtio a chadw staff
3. sut mae mesur trosiant staff yn y gweithle a'i gymharu â lleoliadau tebyg a throsiant yn y sector ehangach
4. effaith trosiant uchel ac isel ymhlith aelodau'r tîm, a sut i fynd i'r afael â hyn
5. sut mae adolygu’r llwyth gwaith a newidiadau yn y gweithle i nodi gofynion recriwtio
6. yr hyn y dylai disgrifiadau swydd a manylebau person eu cynnwys a pham ei fod yn bwysig gweithio mewn partneriaeth ag eraill i'w datblygu neu eu hadolygu
7. sut mae datblygu trefniadau recriwtio cynhwysol o wahanol ddiwylliannau, cefndiroedd a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
8. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y broses recriwtio, a phwysigrwydd gwneud addasiadau rhesymol
9. pwysigrwydd nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau ar gyfer camau’r broses recriwtio a dethol
10. gwahanol ddulliau hysbysebu cyfleoedd recriwtio sy'n ystyried amodau'r farchnad gyflogaeth leol
11. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol wrth recriwtio aelodau’r tîm
12. pwysigrwydd darparu gwybodaeth deg, glir a chywir i ddarpar ymgeiswyr am swyddi gwag
13. sut mae barnu a yw ymgeisydd yn cwrdd â gofynion y swydd wag
14. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth recriwtio, dethol a chadw aelodau’r tîm
15. y gwiriadau cyn cyflogi sy’n ofynnol ar gyfer arferion recriwtio diogel a theg
16. rôl trefniadau cynefino o ran cadw aelodau’r tîm
17. sut mae cefnogi aelodau newydd o’r tîm i setlo yn y gweithle
18. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi â’r gwaith o recriwtio a chadw aelodau’r tîm
19. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod y broses recriwtio
20. gofynion y cyfnod prawf ar gyfer eich gweithle, a phwysigrwydd hyn
21. pam ei fod yn bwysig cynnal cyfweliadau ymadael ag aelodau’r tîm
22. sut mae rhoi adborth ar y prosesau recriwtio a dethol, nodi arferion da a mynd

i'r afael â newidiadau ar gyfer recriwtio yn y dyfodol

23. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer recriwtio aelodau'r tîm
24. theorïau sy'n berthnasol i hybu'r gwaith o recriwtio aelodau'r tîm
25. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer recriwtio aelodau'r tîm
26. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth recriwtio aelodau'r tîm
27. sut mae gofyn am gymorth wrth recriwtio a chadw aelodau'r tîm
28. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth recriwtio aelodau'r tîm, a sut i fynd i'r afael â hyn
29. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth recriwtio a chadw aelodau'r tîm

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Hybu'r gwaith o recriwtio aelodau'r tîm

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD339 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Recriwtio, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |